# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Gorffennaf 2011

# Gŵyl y Glaniad

## 28 Gorffennaf 1865 - 28 Gorffennaf 2011

Mae'n siŵr eich bod chi wedi sylwi fod '28 Gorffennaf' yn cael ei ddefnyddio'n aml, ac i'w weld mewn nifer fawr o lefydd. Mae'n enw cyffredin iawn ar strydoedd yn Nyffryn Camwy, a dyma enw un o gwmnïau bysiau'r Dyffryn. Mae Tir Halen hyd yn oed wedi cael ei newid yn swyddogol i '28 Gorffennaf', neu '28 de Julio' - er mai Tir Halen mae'n cael ei alw yn Gymraeg o hyd! Ond beth sydd mor arbennig am y dyddiad yma?


Bryn Gwyn


Comodoro

Ar yr 28ain o Orffennaf 1865 - ddeufis ar ôl gadael porthladd Lerpwl - angorodd llong y Mimosa ym Mhorth Madryn. Roedd dros gant a hanner o Gymry ar ei bwrdd, yn chwilio am fywyd newydd. Rhain oedd y Cymry cyntaf yn yr Ariannin. Er gwaethaf caledi'r blynyddoedd cyntaf, brwydrodd y Cymry yn erbyn yr elfennau i greu a datblygu cymunedau newydd - y cymunedau rydym ni'n byw ynddyn nhw heddiw.


Porth Madryn

Cafodd nifer fawr o ddigwyddiadau eu cynnal ar hyd a lled Talaith Chubut i gofio am y digwyddiad hanesyddol yma, i dalu teyrnged i'r Cymry cyntaf, ac i ddathlu ein hunaniaeth.


Gaiman

Dyma flas ar ddathliadau Dyffryn Camwy...


Bethesda


Trelew

Lois Dafydd

***Cynhaliwyd dwy eisteddfod yn Nyffryn Camwy ar yr ail o Orffennaf - Eisteddfod Mimosa, a Meicroeisteddfod Camwy. Go brin fod unrhyw un wedi llwyddo i fynychu'r ddwy, felly dyma gyfle i ddarllen eu hanes...***

# Eisteddfod Mimosa

Cynhaliwyd Eisteddfod Mimosa ym Mhorth Madryn am y tro cyntaf yn 2004, ac mae wedi cael ei chynnal ar benwythnos cyntaf mis Awst bob blwyddyn ers hynny. Ond oherwydd *Simposio* arbennig ym Mhorth Madryn yn ystod wythnosau cyntaf mis Awst, cafodd yr eisteddfod ei symud i benwythnos cyntaf mis Gorffennaf eleni.


Mercedes Meza White

Er hynny, daeth nifer fawr o gystadleuwyr a chefnogwyr i adeilad Ysgol 736 ar gyfer diwrnod o adloniant - o Drelew, y Gaiman, Rawson, a Threvelin. Dechreuodd y rhagbrofion ben bore - am 8.30 - ac roedd gwaith caled yn wynebu'r beirniaid! Ond erbyn amser cinio roedden nhw wedi penderfynu pwy fyddai'n ymddangos ar y llwyfan.

Ar ôl canu anthem genedlaethol yr Ariannin, eisteddodd y gynulleidfa yn ôl yn eu seddi i fwynhau prynhawn o adloniant.



Grŵp Dawnsio Gwerin Gwanwyn

Ymddangosodd cystadleuwyr o bob oed ar y llwyfan mewn amrywiaeth o gystadlaethau - unawdau, partïon canu, grŵpiau dawnsio, adrodd, a chorau. Roedd y safon yn uchel, a phawb wedi mwynhau!

Llongyfarchiadau i Gôr Madryn ar ennill gwbor yr 'Excelensia Musical' dan arweiniad Diego Lacunza.


Côr Madryn

Bu llawer o gystadlu oddi ar y llwyfan hefyd yn y cystadlaethau celfyddydol, cyfieithu, coginio, a llenyddol. Ond uchafbwynt y cystadlu llenyddol oedd y prif seremonïau - Y Mimosa, a'r Delyn.

Monica Jones o'r Gaiman gipiodd wobr Y Mimosa. Yn ei cherdd Sbaeneg, 'Parábola Nueva', mae'n cofio cofio am Gymry'r Mimosa ar ffurf dameg newydd. Cafodd Carlos Ruiz, Trelew, ganmoliaeth am ei gerdd yntau, 'Ausencias Esperadas'.



Yn fuddugol ar Y Delyn am ei cherdd Gymraeg 'Pen Cae'r Lan', oedd Ana Chiabrando o Drelew. Mae'r gerdd yn myfyrio ar ei chyndeidiau, gan ganolbwyntio ar y fferm lle cafodd ei hen daid ei eni yn Ne Cymru.

Canwyd 'Hen Wlad Fy Nhadau' i gloi'r eisteddfod yn ystod oriau mân y bore.

Mae rhestr testunau Eisteddfod Mimosa 2012 ar gael ar y wefan - www.eisteddfodmimosa.org - ac yn Neuadd Dewi Sant, Trelew.

# Meicroeisteddfod Camwy




Roedd Microeisteddfod Camwy yn dathlu deng mlynedd ar hugain eleni.  A pha ffordd well o ddathlu'r pen blwydd arbennig ond gyda diwrnod o gystadlu a mwynhau?!

Trefnwyd yr Eisteddfod gan bwyllgor o ddisgyblion Ysgol Camwy, dan gadeiryddiaeth Aixa Orive.  Gwnaeth y pwyllgor waith canmoladwy iawn yn paratoi rhaglen gynhwysfawr a diddorol ymlaen llaw, a sicrhau fod y cystadlu'n llifo'n rhwydd ar y diwrnod.



Côr Ysgol 100

Er ei bod hi'n oer tu hwnt y tu allan, roedd nifer wedi mentro i Ysgol 100 y Gaiman lle'r oedd y cystadlu ar dân!  Dechreuodd y prynhawn mewn gair o weddi yn Gymraeg ac yn Sbaeneg, cyn canu anthem genedlaethol yr Ariannin.

Yna, ymlaen â'r cystadlu!



Dawns Archentaidd

Ymddangosodd amrywiaeth o gystadlaethau Cymraeg a Sbaeneg ar y llwyfan - adrodd, partïon canu, dawnsio Archentaidd, dawnsio gwerin, grŵpiau offerynnol, unwadau, a chorau.  Roedd un gystadleuaeth yn deyrnged i María Elena Walsh, awdur nifer o ddarnau Sbaeneg i blant, a fu farw yn ystod y flwyddyn - ymddangosodd buwch, dewin, a meddyg ar y llwyfan yn ystod yr eitem hon!  Cyhoeddwyd canlyniadau'r cystadlaethau cyfieithu a choginio o'r llwyfan drwy gydol y prynhawn, gyda chanmoliaeth uchel i'r holl ymgeiswyr.



Ysgol Feithrin y Gaiman

Roedd logo Meicroeisteddfod 2011 hefyd yn ganlyniad i gystadleuaeth.  Cipiwyd y wobr gan gynllun o lythrennau a symbolau cerddorol yn llunio'r ddraig Gymreig.  Llongyfarchiadau i'r dylunydd, Tamara Antonio.  Dyma fydd logo swyddogol yr eisteddfod o hyn ymlaen!

Daeth y prynhawn i'w derfyn gyda 'Hen Wlad Fy Nhadau', cyn i bawb droi am adref yn yr oerfel.


Pen Blwydd Llawen iawn i'r Meicrostedffod, a llongyfarchiadau i'r pwyllgor am sicrhau fod y dathliad yn un llwyddiannus ac yn llawn mwynhad!

Ymlaen i'r deng mlynedd ar hugain nesaf!



Pwyllgor yr Eisteddfod

# Diwrnod Annibyniaeth yr Ariannin




Mae calendr yr Ariannin yn llawn dyddiadau sy'n nodi gwahanol ddigwyddiadau sydd wedi bod yn bwysig yn hanes y wlad.  Un o'r dyddiadau pwysicaf yn hanes yr Ariannin ydy'r nawfed o Orffennaf, sef Diwrnod Annibyniaeth.




Chwe blynedd ar ôl i lywodraeth gyntaf y wlad gael ei sefydlu, sef y 'Primera Junta' yn 1810, ffurfiodd cynrychiolwyr gwahanol daleithiau'r Ariannin gyngres yn Tucumán er mwyn trafod dyfodol y wlad.

**Dathliad Ysgol  yr Hendre, Trelew**

Ar y nawfed o Orffennaf 1816, cyfarfu'r dynion hyn mewn tŷ yn Tucumán - sydd bellach yn adeilad hanesyddol - a chanlyniad y cyfarfod oedd datgan annibyniaeth yr Ariannin o reolaeth Sbaen.  Ffurfiwyd Taleithiau Unedig De America, a newidiodd ei enw yn ddiweddarach i 'Provincias Unidas del Río de la Plata'.  Wrth gwrs, Ariannin - neu 'Argentina' - ydy enw'r wlad erbyn hyn.

Ar y nawfed o Orffennaf 2011, gant naw deg a phump o flynyddoedd yn ddiweddarach, dathlodd yr Ariannin gyfan ei hannibyniaeth unwaith eto.  Cafodd seremonïau, cyngherddau a dathliadau eu cynnal ledled y wlad y diwrnod hwnnw i gofio un o ddigwyddiadau pwysicaf yr Ariannin.




**Acto yn y Gaiman**




**Dathliad Ysgol Feithrin y Gaiman yn yr Eglwys Fethodistaidd**

# Holi Ana Chiabrando…



1. **Ble cawsoch chi eich geni?**
   *Cefais fy ngeni yn La Plata, Buenos Aires.*
2. **Ble a sut wnaethoch chi ddysgu Cymraeg?**
   *Dechreuais i ddysgu Cymraeg yn 2004 yn Nhrelew gyda Catrin Morris - cwrs Wlpan a Phellach. Wedyn, gwnes y cwrs Pellach eto a'r cwrs Uwch yn Llanbedr, cyn gwneud y cwrs Meistroli yn y Gaiman gydag Esyllt Roberts de Lewis. Ar hyn o bryd, rwy'n gwneud ail flwyddyn fy Ngradd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Llanbedr dros y we.*

4. **Beth yw eich hoff air Cymraeg?** *Pob un ohonyn nhw!*
5. **Beth ydych chi'n hoffi ei wneud?**
   *Rwy'n hoffi coginio, darllen, ysgrifennu, dawnsio, nofio a llawer o bethau eraill.*
6. **Beth nad ydych chi'n hoffi ei wneud?** *Glanhau, golchi llestri a smwddio, ond mae'n rhaid!*
7. **Ers pryd ydych chi'n rhedeg Plas-y-Coed?** *Ers 2007, ar ôl i Nain farw.*
8. **Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am y gwaith?** *Coginio a siarad gyda'r cwsmeriaid.*
9. **Sut deimlad oedd hi i ennill Y Delyn?**
   *Rwy'n ei hystyried yn wobr am yr ymdrech wnes i ddysgu'r iaith a'r ymdrech rwy'n dal i'w wneud i'w gwella bob dydd. Rwy'n teimlo fod dal llawer gen i i'w ddysgu, ac mae hwn wedi rhoi hwb i mi symud ymlaen.*
10. **O ble cawsoch chi'ch ysbrydoliaeth?**
   *Cyndeidiau roedd y testun, felly ysgrifennais am y ffarm lle cafodd fy hen daid ei eni yng Nghymru. Mae gen i lawer o luniau o'r ffarm a baentiodd cefnder fy Nhaid, gan fod sawl cenhedlaeth o'r teulu wedi byw yna dros 350 o flynyddoedd. Yn anffodus, chefais i ddim cyfle i ymweld â hi achos bu farw cefnder arall fy Nhaid, oedd yn byw ar y ffarm, wythnos cyn i mi gyrraedd Cymru y llynedd. Ro'n i'n teimlo'n drist iawn.*
11. **Beth yw eich hoff lyfr?**
   *Does gen i ddim hoff lyfr. Rwy'n dwlu ar ddarllen, felly mae rhestr hir o hoff lyfrau. I enwi un yn Sbaeneg,* Anne la de Tejados Verdes *- hen hen lyfr dwi wedi ei ddarllen gannoedd o weithiau. Ac yn Gymraeg, dw i ddim wedi penderfynu eto. Ond fwynheais i* Wythnos yng Nghymru Fydd, Stafell Ddirgel *a nawr* Pantglas.
12. **Beth yw eich hoff/cas fwyd?** *Fy hoff fwyd....jam llaeth a chacennau wrth gwrs! A fy nghas fwyd yw seleri - dim syniad pam!*
13. **Ble mae eich hoff le yn y byd?** *Mae fy hoff le yn y byd gyferbyn â sgwâr y Gaiman.*

## Helo, a Hwyl Fawr!



Ddiwedd mis Gorffennaf cyrhaeddodd Lucy Sumner o Gymru. Bydd Lucy, sy'n athrawes yn Ysgol Uwchradd Treffynnon, Gogledd Cymru, yn dysgu Cymraeg yn y Gaiman a Threlew tan fis Rhagfyr. Croeso Lucy, a phob hwyl gyda'r gwaith!

Ond wrth i ni groesawu Lucy, rydym ni'n ffarwelio â Mavis Griffiths, sydd wedi bod yn athrawes Gymraeg yn yr ardal ers mis Chwefror. Diolch i Mavis am ei chwmni a'i gwaith, a siwrne ddiogel iddi yn ôl i Gymru.

# Gwersyll Gaeaf y Capeli Cymreig



Trefnodd arweinwyr ac aelodau capeli Cymreig Bethel a'r Tabernacl Gwersyll Gaeaf 2011, 'Bywyd o Bwrpas', yn y gampfa yn Nolafon o'r 10fed hyd y 13eg o fis Gorffennaf. Daeth pobl ifanc rhwng deuddeg a deunaw oed o Drelew, Comodoro Rivadavia, a Gaiman. Roedd cyfle iddyn nhw adnewyddu eu perthynas gyda Duw, treulio amser a mwynhau gyda bechgyn a merched sy'n chwilio am brofiad drwy'r un ffydd â nhw. Roedd hefyd gweithgareddau hamdden bob nos, a gwahanwyd y gwersyllwyr yn ddau grŵp i gystadlu mewn gêmau! Ar y gwersyll, gallai'r bobl ifanc chwarae, canu, cael hwyl, dysgu am air Duw, a threulio amser gyda ffrindiau. Dwi wedi cael atgofion hyfryd gyda ffrindiau, a ffrindiau newydd, ond yn bwysicaf gwelais fy mod yn tyfu'n ysbrydol.

Virginia Steinkampf



# Camre Cymru

Bu saith o bobl ifanc o Ogledd Cymru yn aros yn y Gaiman yn ystod wythnos olaf mis Gorffennaf. Ond nid ymweliad hamddenol oedd hwn! Gweithiodd criw Camre Cymru, sy'n ddisgyblion yn Ysgol John Bright, Llandudno, a dau arweinydd yn galed ar safle Meini'r Orsedd. Gwnaethon nhw waith da iawn yn chwynnu, yn clirio'r tir, ac yn cloddio, er gwaetha'r gwynt a'r lludw!


Ond yng nghanol yr holl waith caib a rhaw, cawson nhw gyfle i ymlacio a chymdeithasu. Mwynheuodd y bobl ifanc sgwrs dros *pizza* gydag un o ddosbarthiadau Cymraeg Trelew, *empanadas* a gêmau hwyliog gyda rhai o ddisgyblion Ysgol Camwy, a chinio gyda phlant Ysgol yr Hendre.



A hithau'n wythnos Gŵyl y Glaniad, wrth gwrs roedd yn rhaid i bawb dorchi llewys! Estynnodd y criw help llaw yn paratoi at swper arbennig yn Nhrelew ar noswyl yr ŵyl, cyn ymuno yn yr asado a'r dawnsio. Ar y diwrnod ei hun, mynychu dathliad Gŵyl y Glaniad yn Ysgol Bryn Gwyn, lle cyflwynodd Siôn Hooson rodd i Faer y Gaiman, Gabriel Restucha, ar ran tref Llandudno. A chyn troi am El Bolsón, ymunodd y bobl ifanc yn nathliad Ysgol Feithrin y Gaiman ac Ysgol 415 yn y gampfa, lle chwaraewyd gêmau cyn bwyta te.

Diolch i Camre Cymru am eu gwaith caled a'u cwmni, a phob hwyl iddyn nhw ar weddill eu hamser yn yr Ariannin ac ar eu taith yn ôl i Gymru.

| Cornel y Dysgwyr | *Rincon de aprenda Galés* |
|---|---|
| Bore da. | *Buenos días.* |
| Prynhawn da. | *Buenas tardes.* |
| Nos da. | *Buenas noches.* |
| Sut wyt ti (heddiw)? | *Cómo estás (hoy)?* |
| Dwi'n iawn, diolch. | *Estoy bien, gracias.* |
| Dwi'n dda iawn, diolch. | *Estoy muy bien, gracias.* |
| Ardderchog! | *Excelente!* |
| Go lew. | *Mas o menos.* |
| Dwi'n hapus. | *Estoy feliz.* |
| Dwi'n drist. | *Estoy triste.* |
| A ti? | *Y vos?* |
| Tan yfory! | *Hasta mañana!* |



Diolch yn fawr i noddwyr a chyfranwyr y rhifyn hwn!


**Nwyddau ar gyfer ffermwyr**

**camposur**
SERVICIOS AGROPECUARIOS
**CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.**



***Plas-y-Coed***

**Tŷ Te hynaf Gaiman.**

**Croeso Cymreig a the traddodiadol ers 1944.**

**Heol Michael D. Jones, Gaiman**

***Gwalia Lân***

**Bwyty safonol gydag Awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.**



**Cornel Heol Eugenio Tello a Heol Michael D. Jones, Gaiman.**

**TeithiauTango**
Dewch i weld y Wladfa

www.teithiautango.co.uk

**Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n arbenigo mewn teithiau i'r Wladfa.**

# Noson Cawl a Chân



Cyn i bawb ffarwelio ar gyfer gwyliau'r gaeaf, cynhaliodd Menter Patagonia noson 'Cawl a Chân' yn y Gaiman. Daeth tua deg ar hugain i'r gampfa gyda'u bowlenni a'u llwyau yn barod at y wledd! Ac roedd amrywiaeth o gawl yn ffrwtian ar y ffwrn wrth i bawb gyrraedd a chymdeithasu gyda'i gilydd – cawl pwmpen, cawl llysiau, cawl cennin a chawl traddodiadol. Roedd rhai yn ddigon mentrus i gymysgu'r pedwar yn yr un fowlen!

Cyn mentro dawnsio gyda'n boliau'n llawn, rhannod pawb yn dri thîm ar gyfer cwis oedd yn canolbwyntio ar gawl a cherddoriaeth o Gymru a'r Ariannin. Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol, sef Judith Jones, Ariela Gibbon, Gonzalo Lizama, Nia Griffith a Mavis Griffiths! Ond roedd pawb ar eu hennill o ddysgu mai yn y 14g yr ymddangosodd y gair 'cawl' yn ysgrifenedig am y tro cyntaf, a bod Frank Sinatra (yn ôl y sôn) yn mynnu bowlen o gawl cyw iâr a reis yn ei ystafell newid cyn perfformio! A daeth ein tro ni i berfformio, wrth i Judith Jones arwain y twmpath. Cafodd y dawnswyr a'r gwylwyr lawer o hwyl, ac roedd digon o fara brith ar gael i bawb!



Roedd hi'n noson braf iawn, ac yn gyfle da i ffarwelio â ffrindiau cyn y gwyliau.

# Cawl Cennin - rysáit gwych i gadw'n gynnes.

Cynhwysion:

- 50g menyn
- 675g cennin wedi eu golchi a'u torri
- 25g blawd
- 600ml stoc llysiau
- halen a phupur
- 300ml llaeth

Digon ar gyfer pedwar person.



Toddwch y menyn a choginio'r cennin ynddo am tua 5 munud gan eu troi.


Ychwanegwch y blawd a choginio am 2 funud.

Ychwanegwch y stoc yn raddol gan droi o hyd, wedyn y llaeth a'r pupur a halen.

Dewch â'r cawl i'r berw, ac wedyn mudferwi am tua 40 munud.

Bwytewch gyda bara menyn.

# Croesair Chwaraeon




**I LAWR:**

1. PELOTA (3)
3. STADIWM YNG NGHAERDYDD: STADIWM __ __________ (1, 8)
4. RHEOLWR TÎM PÊL-DROED YR ARIANNIN (8)
5. BYDD CWPAN RYGBI'R BYD 2011 YN CAEL EI GYNNAL YMA (6, 5)
6. CAPTEN TÎM PÊL-DROED YR ARIANNIN (10)
8. NIFER Y PWYNTIAU AM SGORIO CAIS MEWN RYGBI (4)
9. RIVER ______ (5)
11. ENILLWYR CWPAN PÊL-DROED Y BYD YN 2010 (5)
13. TRIATHLON – RHEDEG, BEICIO, _____ (5)
14. CAFODD 'COPA AMERICA 2011' YN CAEL EI CHYNNAL YN Y WLAD YMA (8)
16. NIFER Y CHWARAEWYR MEWN TÎM PÊL-LAW (4)
18. EI DDEFNYDDIO I CHWARAE HOCI (3)

**AR DRAWS:**

2. AJEDREZ (8)
4. LLIWIAU BOCA JUNIORS (5, 1, 4)
6. RAS 26 MILLTIR (7)
7. CAPTEN TÎM RYGI CYMRU: MATTHEW _______ (4)
8. TÎM RYGBI YR ARIANNIN (5)
10. MEDAL AM DDOD YN GYNTAF (3)
12. REFÉRI (8)
15. CAFODD GÊMAU OLYMPAIDD 2010 EU CYNNAL YN Y WLAD HON (7)
17. MAE MUHAMMAD ALI YN ENWOG AM Y CHWARAEON YMA (5)
19. MAE LIONEL MESSI YN CHWARAE GYDA'R CLWB YMA (9)

**Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!**

## Geirfa'r Mis

| | |
|---|---|
| swyddogol | *oficial* |
| porthladd | *puerto* |
| caledi | *dificultades* |
| brwydro | *luchar* |
| annibyniaeth | *independencia* |
| datblygu | *desarrollar* |
| hunaniaeth | *identitad* |
| adloniant | *entretenimineto* |
| pwyllgor | *comision* |
| cadeiryddiaeth | *presidencia* |
| cynhwysfawr | *variado y extenso* |

## *Vocabulario del Mes*

| | |
|---|---|
| canmoliaeth | *elogios* |
| cynrychiolydd/wyr | *representante(s)* |
| cyngres | *congreso* |
| rhoi hwb | *dar animo* |
| cyndeidiau | *antepasados* |
| ymweliad | *visita* |
| hamddenol | *relajado* |
| chwynnu | *secar yuyos* |
| cloddio | *cavar* |
| teyrnged | *homenaje* |
| ymlaen llaw | *de antemano* |


# Cornel y Plant

Llongyfarchiadau mawr i
**Naara Lopez Peralta**
**Trelew**
ar ennill y wobr am liwio Miffi!

Diolch i bawb am gystadlu.

Lliwiwch Tomos y Tanc!

Anfonwch y llun wedi'i liwio gyda'ch enw at Lois Dafydd erbyn 20 Awst am gyfle i ennill gwobr.



## Chwilair Gŵyl y Glaniad

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| p | c | y | m | r | u | s | d | t | e |
| a | f | b | i | n | i | u | s | h | l |
| t | e | r | m | w | p | l | r | w | g |
| a | b | p | o | r | th | s | m | a | f |
| g | ff | e | s | b | g | n | a | r | e |
| o | g | l | a | n | i | a | d | c | d |
| n | r | f | g | d | l | p | r | f | b |
| i | th | w | h | b | h | o | y | h | n |
| a | b | c | a | c | e | n | n | a | u |

cymru
porth
madryn
mimosa
glaniad
cacennau
te
patagonia

Os hoffech chi anfon lluniau neu wybodaeth at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2965 386 198